Annwyl Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol,

Rydym yn ysgrifennu atoch i fynegi ein gofid, anobaith a siom am y newyddion trychinebus bod datblygiad TGAU Gwneud i Gymru mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) wedi cael ei ohirio oherwydd "heriau ymarferol".

Cafwyd cefnogaeth gref ers tro i ddatblygu TGAU gwneud-i-Gymru mewn BSL – a, tan gyhoeddiad ddoe, roeddem wrth ein boddau y byddai gan ddefnyddwyr BSL yng Nghymru, y cyfle i gyflawni TGAU mewn eu hiaith eu hunain sydd wedi'i chydnabod yn gyfreithiol, yn union fel y gallant gyda'r Saesneg a'r Gymraeg. Yn ogystal â dileu'r anghydraddoldeb o ran cyfle, mae datblygiad y TGAU yn gyfle gwirioneddol i ddathlu hanes a diwylliant byddar mewn ystafelloedd dosbarth a chreu system addysg fwy cynhwysol.

Yn wir, mae Cymwysterau Cymru eisoes wedi cydnabod ystod eang o resymau pam y mae angen TGAU gwneud-i-Gymru mewn BSL, gan gynnwys;

- Codi proffil BSL yng Nghymru i alluogi cymdeithas fwy cynhwysol.
- Rhoi'r cyfle i fwy o bobl ifanc i ddysgu BSL. Mae BSL wedi bod yn weladwy ar raglenni teledu oriau brig sydd wedi codi ei phroffil yn gyffredinol a gall amlygrwydd modelau rôl cadarnhaol arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd am ddysgu BSL.
- Rhoi amser i ysgolion i adeiladu'r capasiti i ddarparu BSL ar lefelau uwch y camau cynnydd.
- Helpu adeiladu mas critigol o ddefnyddwyr BSL a'r rheini sy'n gallu deall BSL yng ngweithlu'r dyfodol.

Ar 1 Hydref, dim ond ychydig o ddyddiau yn ôl, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol: "Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod ni'n ystyried yr hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru. Rydych chi'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaethau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd BSL a'i ffurfiau cyffyrddol yng Nghymru, ac rydym yn credu y bydd dull mwy cydweithredol a chynhwysol yn effeithiol os gallwn ni gael effaith gadarnhaol ar y gymuned arwyddo BSL yng Nghymru." Ond, llai na 24 awr yn ddiweddarach, mae'r cyhoeddiad am ohirio datblygiad y TGAU wedi cyflawni'r gwrthwyneb yn llwyr.

I fod yn glir, rydym yn ystyried bod y penderfyniad hwn yn gam yn ôl o ran cydraddoldeb, cynwysoldeb, ac i gymuned BSL Cymru.

Mae'r addewidion i ddatblygu TGAU BSL, fel yr ymgyrch a oedd yn galw am ei sefydliad, yn ymestyn dros flynyddoedd. Byddwch yn ymwybodol bod yn Hydref 2018 galwodd y Pwyllgor Deisebau ar y pryd am greu'r TGAU, galwad y cytunodd Llywodraeth Cymru iddi mewn egwyddor ar y pryd. Mae cyfathrebu rhwng y llywodraeth a Cymwysterau Cymru ar hyn, yn ôl ein cofnodion, yn mynd yn ôl i 2017, o leiaf. Mae plant byddar a'u cyfoedion sy'n clywed wedi edrych ymlaen ers tro at gael y cyfle i astudio'r TGAU. Mae derbyn y newyddion hyn, dim ond sawl mis byr ar ôl cael clywed byddai'r TGAU yn cael ei hoedi, yn dorcalonnus iddynt. O ystyried faint o amser ac ymroddiad rydych chi, Cymwysterau Cymru a sefydliadau allanol eraill wedi'u rhoi i sefydlu'r TGAU, credwn yn gadarn ni ddylai'r ymdrech hon gael ei gwastraffu drwy gael gwared ar y cynlluniau i lansio'r TGAU.

Rydym hefyd yn bryderus iawn am y neges y mae hyn yn ei rhoi i bobl Cymru am ymroddiad Llywordaeth Cymru i gefnogi'r gymuned byddar a BSL o ystyried bod y llywodraeth hefyd yn bwriadu gwrthod y Bil BSL (Cymru) sydd i ddod. Er gwaethaf sylwadau canmoladwy Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar lawr y Senedd gan bwysleisio cefnogaeth y llywodrath dros yr iaith, mae gwrthod y TGAU a'r Bil gyda'i gilydd yn anfon neges sy'n llwyr i'r gwrthwyneb.

Yn nhermau cymwysterau ar gyfer y gyfres sgiliau, credwn nad yw hyn yn amnewidiad digonol am y TGAU i hwyluso defnydd ehangach BSL ac i adeiladu'r mas critigol hwnnw o ddefnyddwyr BSL am y dyfodol. Byddai'r TGAU BSL arfaethedig wedi cynnwys elfennau o ymwybyddiaeth am fyddardod, a diwylliant byddar, y gwyddom eu bod yn gyd-destun hynod o bwysig i fyfyrwyr sy'n astudio BSL. Hefyd, byddai gan gymhwyster mewn BSL dilysrwydd diamau yn nhermau dilyniant i addysg bellach ac uwch, ond nid ydym yn siŵr a fydd y cymhwyster newydd hwn yn cael yr un safon. Yn gryno, bydd gan y TGAU y potensial i gryfhau'n fawr gyfleoedd plant byddar yn nhermau dilyniant addysg ôl-16 ac o ganlyniad, eu cyfleoedd yn eu bywydau.

Rydym yn awyddus i weithio gyda chi i drafod yr heriau ymarferol y mae Cymwysterau Cymru wedi cyfeirio atynt, ac i ddangos i chi sut y gellid gwireddu'r TGAU. Credwn yn gadarn ein bod ni'n gallu goresgyn yr heriau hyn a sicrhau bod y TGAU gwneud-i-Gymru mewn BSL yn cael ei gwireddu i'r myfyrwyr hynny yng Nghymru sy'n edrych ymlaen at wneud y cwrs.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych ac at gwrdd â chi i drafod hyn ymhellach cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,

| | |
|---|---|
| Susan Daniels OBE | Lindsay Foster |
| Prif Weithredwr | Cyfarwyddwr Gweithredol |
| Y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar | Signature |

CC:
David Jones OBE DL, Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Dawn Bowden AS, Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Jack Sargeant AS, Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Tom Giffard AS, Weinidog yr Wrthblaid dros Addysg
Cefin Campbell AS, Llefarydd Plaid Cymru dros Addysg
Mark Isherwood AS, Cadeirydd Grwpiau Trawsbleidiol Materion Byddar ac Anabledd
Buffy Williams AS, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Jenny Rathbone AS, Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol